**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Gwener, 11 Mehefin 2021 am 11.00 am**

**Yn Bresennol**: Louise Fleet (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Y Cynghorydd(wyr) - Abertawe**

| | | |
|---|---|---|
| L S Gibbard | L R Jones | J A Raynor |
| R V Smith | | |

**Y Cynghorydd(wyr) - Castell-nedd Port Talbot**

| | | |
|---|---|---|
| A R Aubrey | W F Griffiths | H N James |
| R Mizen | | |

**Sefydliadau Cysylltiedig**

| | |
|---|---|
| Louise Miskell | Prif Ysgol Abertawe |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Kim Collis | Archifydd Sirol |
| Craig Griffiths | Cyfreithiol - CNPT |
| Wayne John | Llyfrgellydd Sirol - CNPT |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr P M Black & P A Rees ac A Dulley, S Perons a J Watkins

---

## 1 Croeso/Diolch.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Jen Raynor yn ôl i'r Pwyllgor a diolchodd i'r Cynghorydd Mike Durke am ei gyfraniad dros y blynyddoedd, gan ei bod yn cymryd ei le.

## 2 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y ddau awdurdod, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 3 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2021 yn gofnod cywir

## 4 Materion yn Codi

Adroddodd yr Archifydd Sirol nad yw’r strwythur staffio wedi newid am y tro, ond mae COVID a'r cyfleuster newydd posib yn darparu cyfle i adolygu a diwygio'r ddarpariaeth wrth symud ymlaen.

Nododd fod yn rhaid gohirio digwyddiad dadorchuddio plac glas yr ymgyrchydd a'r actifydd gwrth-gaethwasiaeth, Jessie Donaldson yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad ac y bydd yn awr yn cael ei gynnal ar Fehefin 19eg

## 5 Adroddiad Archifydd y Sir.

Cyflwynodd yr Archifydd Sirol adroddiad a oedd yn amlinellu gwaith y Gwasanaeth Archifau ar y Cyd rhwng mis Mawrth 2021 a mis Mai 2021.

Pandemig COVID-19

Nododd fod ystafell chwilio Abertawe wedi ailagor i'r cyhoedd ddydd Mawrth 6 Ebrill ar sail apwyntiad yn unig, yn dilyn llacio'r cyfyngiadau a roddwyd ar waith yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol diweddaraf.

Amlinellodd ei fod yn gobeithio agor y Ganolfan Hanes Teulu cyn gynted ag y caiff y cyfyngiadau perthnasol eu llacio er mwyn caniatáu i hyn ddigwydd.

Nododd nad oes dyddiad eto i ailagor y cyfleuster yn Sefydliad y Mecanyddion yng Nghastell-nedd, ond nododd fod trafodaethau gyda Chyngor Castell-nedd Port Talbot a Chymdeithas Hynafiaethwyr Castell-nedd yn parhau.

Allgymorth a Gweithgarwch Addysgol

Dywedodd fod yr holl waith allgymorth yn ystod y chwarter yn parhau i fod yn gyfyngedig oherwydd y cyfyngiadau symud a’i fod wedi'i gyfyngu i ymgysylltu â'n defnyddwyr a'n dilynwyr ar-lein ar gyfryngau cymdeithasol. Rydym yn parhau i ymgysylltu ag athrawon ysgol o bell ac yn darparu adnoddau addysgol ar-lein ar gyfer ysgolion cynradd, yn bennaf.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn parhau i hyrwyddo ei hun drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol Facebook a Twitter ac yn fwy diweddar mae wedi ychwanegu cyfrwng Microsoft Teams fel modd o gyflwyno darlithoedd ar-lein a chyngor hanes teuluol.

Mae'r trafodaethau ar-lein a roddwyd yn ystod y chwarter yn parhau i fod yn boblogaidd gyda'r cyhoedd.

Cyfeiriodd at gyhoeddi adroddiad blynyddol y gwasanaeth sydd i'w weld yn Abertawe - Adroddiad Blynyddol yr Archifydd Sirol.

Roedd aelodau'r pwyllgor yn cefnogi ac yn cymeradwyo cynnwys yr adroddiad ac yn croesawu'r cymysgedd amrywiol o erthyglau a gynhwyswyd ynddo.

Nododd fod y prosiect ar hanes cysylltiad Cymru â'r fasnach gaethwasiaeth hanesyddol wedi tyfu yn ystod y chwarter diwethaf a'i fod bellach yn cynnwys bron pob archif leol yng Nghymru ynghyd â Phrifysgolion Bangor, Abertawe a Chaerdydd. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan y gweithgor a sefydlwyd i adolygu Cwricwlwm Cymru o ran y pwnc hwn ac mae'r prosiect yn gwneud cynnydd cyson.

Hen Adeilad *British Home Stores*

Adroddodd ymhellach i'r diweddariad a roddwyd yng nghyfarfod mis Mawrth a dywedodd fod Cyngor Abertawe wedi penodi *Coreus Group* i arwain Tîm Amlddisgyblaethol (TA) i ddatblygu prosiect Hwb Cymunedol Canol y Ddinas a gynlluniwyd ar gyfer 277-278 Oxford Street.

Ymysg tasgau eraill, bydd y TA yn ymchwilio i weld a oes modd newid rhan o'r adeilad yn ystorfa archif a fydd yn bodloni Safon Brydeinig 16893. Roedd yr Archifydd Sirol yn bresennol ar gyfer cyfarfod archwiliadol cychwynnol gyda'r pensaer yr ymgysylltwyd ag ef gan *Coreus Group*, Neil Farquhar o Austin-Smith Lord Architects of Cardiff. Cyhoeddir adroddiad ar addasrwydd yr adeilad ar gyfer cadw'r archif maes o law a bydd yr Archifydd Sirol yn parhau i gysylltu â'r TA i gyflawni'r nod hwn.

Amlinellodd y pwysigrwydd fod unrhyw gyfleuster newydd yn cyflawni safon BS 16893 ar gyfer archifau. Roedd aelodau'r pwyllgor yn cefnogi'r angen i unrhyw gyfleuster newydd gyrraedd y safon BS angenrheidiol.

Defnydd o'r gwasanaeth

Nododd fod y ffigurau sy'n ymwneud â defnyddio'r gwasanaeth yn adlewyrchu effaith y pandemig.

Sgyrsiau a Chyfarfodydd Proffesiynol

Adroddodd am y cyfarfodydd amrywiol y bu'r staff yn bresennol ynddynt yn ystod y chwarter.

Casgliadau'r Archifau

Adroddodd am y rhestr o archifau a dderbyniwyd gan y gwasanaeth yn ystod y chwarter.

Daeth y cyfarfod I ben am 12.12 pm

**Cadeirydd**